**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

# Canllawiau ar Ardystio Allforion o Bell

## (ar gyfer cynhyrchion risg isel)

### Chwefror 2023

### Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 1

Y Goeden Benderfynu ........ 1

Canllawiau i gyd-fynd â'r goeden benderfynu ........ 3

Canllawiau i Filfeddygon Swyddogol ar oruchwylio seliau swyddogol ar gyfer allforion yr UE o bell ........ 4

# Crynodeb Gweithredol

Y weithdrefn safonol ar gyfer ardystio allforion yw bod y Milfeddyg Swyddogol yn bresennol yn bersonol i gynnal archwiliad ffisegol o'r llwyth cyn ardystio.

Gall ardystio o bell fod yn addas o dan amgylchiadau cyfyngedig neu eithriadol (lle nad yw'r ardystiwr yn bresennol i archwilio'r llwyth yn bersonol cyn ardystio).

Dim ond mewn senarios lle y gellir cynnal safonau ardystio uchel y dylid ardystio o bell.

Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar ganllawiau presennol Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) ac yn darparu coeden benderfynu yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer defnyddio ardystio o bell.


# Y Goeden Benderfynu

Darperir y goeden benderfynu hon a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi fel fframwaith i Filfeddygon Swyddogol eu defnyddio wrth ystyried, ar sail achos unigol, a ddylid ardystio o bell neu fynd i'r safle eu hunain.

Lle mae RCVS neu'r Awdurdod Cymwys (e.e. trwy Nodiadau Cyfarwyddyd swyddogol), yn rhoi canllawiau ardystio o bell ar nwyddau penodol, rhaid dilyn y canllawiau hyn a all ddisodli'r canllawiau cyffredinol yn y ddogfen hon.

Nid yw ardystio o bell yn addas o dan amgylchiadau lle bo'r goeden benderfynu yn dangos nad oes modd caniatáu hyn.

**<u>Nid</u> yw anifeiliaid tiriogaethol byw, cynhyrchion cenhedlol na chig ffres yn addas ar gyfer ardystio o bell.**


Rwy'n ymwybodol mai dim ond o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a amlinellir yn y Canllawiau Ardystio o Bell y dylid ardystio o bell, a fframwaith yw'r goeden benderfynu hon i helpu i gadarnhau a all ardystio o bell fod yn briodol.
A oes angen archwiliad ffisegol o'r llwyth ar gyfer y dystysgrif?
Oes
Ni chaniateir hyn
Nac oes
Ai cynnyrch 'risg isel' yw'r cynnyrch?
(Yn unol â Chanllawiau Ardystio o Bell Defra)
Nage
Ni chaniateir hyn
Ie
A ydych yn gyfarwydd â'r sefydliad a'r broses?
Nac ydw
Ni chaniateir hyn
Ydw
Oes cofnodion cywir, cyfredol a hygyrch?
Nac oes
Ni chaniateir hyn
Yes
A gaiff y cynnyrch ei nodi mewn ffordd fel nad yw'n bosibl ei gyfnewid?
Na chaiff
Ni chaniateir hyn
Chaiff
A ydych yn fodlon bod gennych ddigon o wybodaeth i ardystio o bell?
Nac ydw
Ni chaniateir hyn
Ydw
Caniateir hyn

# Canllawiau i gyd-fynd â'r goeden benderfynu

## A yw'r dystysgrif yn gofyn am archwiliad ffisegol o'r llwyth?

Rhaid i chi edrych ar y dystysgrif berthnasol a'r nodiadau cyfarwyddyd i asesu a yw archwiliad ffisegol o'r llwyth yn ofynnol adeg ardystio.

## Ai cynnyrch ‘risg isel’ yw'r cynnyrch hwn?

At ddibenion ardystio o bell, diffinnir cynhyrchion risg isel fel:

- cynhyrchion silff-sefydlog sydd wedi bod drwy broses ddiwydiannol reoledig (e.e., powdr llaeth silff-sefydlog). Rhaid i'r driniaeth hon leihau risgiau'r cynnyrch i iechyd anifeiliaid a phlanhigion (e.e. drwy driniaeth gwres)

  a/neu

- gynhyrchion y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer ardystio o bell mewn canllawiau gan yr awdurdod cymwys (e.e., Nodiadau Cyfarwyddyd swyddogol)

Nid yw cynnyrch sydd o fewn y diffiniad ‘risg isel’ uchod yn addas yn awtomatig ar gyfer ardystio o bell. Dylech barhau i ddilyn y goeden benderfynu.

## Ydych chi'n gyfarwydd â'r sefydliad a'r prosesau?

Rhaid i chi fod yn bersonol gyfarwydd â'r sefydliad(au) a'r prosesau perthnasol sy'n cael eu cyflawni cyn cytuno i ardystio o bell. Rhaid i hyn gynnwys:

- o leiaf un archwiliad ffisegol trylwyr cychwynnol o'r sefydliad a'r prosesau perthnasol yn ymwneud ag allforio sampl gynrychioliadol o gynhyrchion
- cynnal hapwiriadau (gan gynnwys ardystio llwythi perthnasol yn bersonol ac archwiliadau ffisegol o'r sefydliad). Dylech benderfynu pa mor aml y dylid cynnal yr hapwiriadau hyn yn dibynnu ar risgiau, ond **rhaid i'r safle fod yn destun archwiliad ffisegol gan Filfeddyg Swyddogol bob tri mis o leiaf.** Rhaid cadw'r dystiolaeth o ganlyniad y gwiriadau hyn at ddibenion archwilio
- dylid cynnal archwiliad ffisegol o'r sefydliad eto pryd bynnag y cewch wybod am newidiadau sylweddol i'r safle neu brosesau. Rhaid cynnal archwiliad ffisegol hefyd os bydd y gofynion ardystio yn newid

Rhwng archwiliadau ffisegol o'r sefydliad, gellir defnyddio archwiliadau fideo, tystiolaeth ffotograffig a/neu gofnodion eraill i gadarnhau bod y sefydliad a'i brosesau yn parhau i weithredu yn y ffordd rydych yn gyfarwydd â hi. Rhaid hefyd gadw tystiolaeth o'r rhain at ddibenion archwilio.

## Oes cofnodion cywir, cyfredol, a hygyrch?

Rhaid i gofnodion cywir fod ar gael adeg ardystio sy'n dangos manylion y llwyth yn ogystal â thystiolaeth gefnogol ddigonol i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ardystio.

Dylai'r cofnodion gynnwys (fel y bo'n briodol):

- cofnodion o arolygu/cymeradwyo/cofrestu/rhestru'r sefydliad (fel y bo'n briodol) gan yr awdurdodau cymwys perthnasol (e.e., yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Food Standards Scotland (FSS), yr Awdurdod Lleol (ALl))
- cofnodion Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP)

- unrhyw gofnodion eraill sy'n briodol yn eich barn chi (e.e., cofnodion gweithredol, cofnodion olrhain, achrediadau trydydd parti perthnasol)

Lle y dibynnir ar systemau'r allforiwr (neu'r gweithredwr busnes bwyd) ei hun i ddarparu gwybodaeth:

- rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r systemau rheoli ansawdd sydd ar waith i sicrhau cywirdeb a bod yn fodlon arnynt.
- rhaid i chi (neu Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithredu o dan eich cyfarwyddyd) gadarnhau pa mor aml y byddwch yn cynnal hapwiriadau i gadarnhau cywirdeb. Dylech gadw copi o'r hapwiriadau hyn at ddibenion archwilio. Nid yw'r canllawiau hyn yn newid unrhyw un o'r polisïau presennol ar ddefnyddio Swyddogion Cymorth Ardystio. Rhaid i Swyddogion Cymorth Ardystio weithredu'n unol â pholisi APHA ar gyfer awdurdodi Swyddogion Cymorth Ardystio.

### A gaiff y cynnyrch ei nodi mewn ffordd fel nad yw'n bosibl ei gyfnewid?

Dylai'r cynnyrch fod wedi'i becynnu a/neu'i selio mewn ffordd fel na fyddai disgwyl i'w fanylion na'i gyflwr newid cyn y dyddiad anfon disgwyliedig.

Dylai bod modd adnabod y cynnyrch trwy ddulliau marcio unigryw (e.e., cod swp, rhifau cyfresol, neu farciau cludiant).

### A ydych yn fodlon bod gennych ddigon o wybodaeth i ardystio o bell?

Er y gall allforwyr ofyn am i'w cynhyrchion gael eu hardystio o bell, cyfrifoldeb y Milfeddyg Swyddogol yw penderfynu a yw'n briodol. Dylech asesu'r senario lle y gofynnir i chi ardystio o bell a phenderfynu a yw'n briodol i chi wneud hynny, gan ddefnyddio'r canllawiau hyn i gefnogi eich penderfyniad.

Nid oes rhwymedigaeth arnoch i ardystio o bell ac os nad ydych yn fodlon ardystio o bell am unrhyw reswm, dylech wrthod gwneud hynny.

Drwy ardystio tystysgrif swyddogol, naill ai o bell neu'n bersonol, gallech fod yn atebol am unrhyw wybodaeth anghywir rydych chi wedi'i hardystio.

Os ydych wedi dilyn y canllawiau hyn ac yn fodlon nad oes angen archwiliad ffisegol o'r llwyth, yna gallech ddewis ardystio o bell.

Mae canllawiau pellach ar ardystio o bell ar gael yn yng Nghod Ymddygiad Proffesiynol RCVS i Filfeddygon.

Gallwch hefyd gysylltu ag APHA i gael rhagor o gyngor os oes angen, neu i roi gwybod am unrhyw bryderon.

## Canllawiau i Filfeddygon Swyddogol ar oruchwylio seliau swyddogol ar gyfer allforion yr UE o bell

Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn dilyn unrhyw ganllawiau penodol ar seliau swyddogol a ddarperir gan yr awdurdod cymwys perthnasol.

Os bydd y dystysgrif neu'r nodiadau cyfarwyddyd yn nodi bod yn rhaid i chi (y Milfeddyg Swyddogol) fod yn bresennol eich hun adeg gosod y sêl swyddogol, yna ni fydd goruchwylio o bell na dirprwyo i Swyddog Cymorth Ardystio yn briodol.

Ar gyfer allforion yr UE o Gynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (POAO), ‘sêl swyddogol’ yw sêl sy'n cael ei ‘hatodi i gynhwysydd, lori neu wagen reilffordd dan oruchwyliaeth yr awdurdod cymwys sy'n rhoi'r dystysgrif (Rheoliad Gweithredu (yr UE) 2020/2235).

Nid yw'n ofyniad cyfreithiol fel rheol i lwythi POAO gael eu selio'n swyddogol ond gall allforwyr ofyn am hyn er mwyn hwyluso gwiriadau adeg mynediad i'r UE.

Lle caiff yr holl ofynion eraill ar gyfer ardystio o bell eu bodloni, gellir goruchwylio'r broses o osod y sêl swyddogol naill ai drwy:

a) ddirprwyo'r broses oruchwylio i Swyddog Cymorth Ardystio, ar yr amod ei fod/bod yn gweithredu'n unol â'r polisi y cytunwyd arno ar ddefnyddio Swyddogion Cymorth Ardystio. Rhaid i Swyddogion Cymorth Ardystio, fel gofyniad sylfaenol, gadarnhau manylion hapsampl o'r cynhyrchion yn y llwyth, bod yn dyst i'r broses o osod y sêl a darparu tystiolaeth ffotograffig neu fideo i swyddog ardystio'r llwyth yn union cyn selio ac o'r sêl atodedig (gyda rhif sêl darllenadwy). Nid yw'r canllawiau hyn yn newid unrhyw un o'r polisïau presennol ar ddefnyddio Swyddogion Cymorth Ardystio. Gellir defnyddio Swyddogion Cymorth Ardystio i gynnal gwiriadau gweinyddol, ond rhaid iddynt weithredu o fewn polisi APHA ar gyfer awdurdodi Swyddogion Cymorth Ardystio ac ni allant gyflawni unrhyw dasgau lle mae angen barn milfeddyg.

a/neu

b) drwy recordiad fideo byw, y mae'n rhaid i chi (y milfeddyg swyddogol) allu adnabod hapsampl o'r nwyddau yn y llwyth, bod yn dyst i'r broses o osod y sêl a darllen y rhif ar y sêl a osodwyd

a/neu

c) drwy ddilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan yr awdurdod cymwys perthnasol (e.e., dylai milfeddygon swyddogol sy'n ardystio allforion yng Ngogledd Iwerddon ddilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA).

(h) Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

www.gov.uk/defra